

Rhagfyr 2015

## Galwad am wybodaeth – Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17

Mae pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am wybodaeth i gynorthwyo gyda'r gwaith o graffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17, a gyhoeddwyd ar 8 Rhagfyr 2015. Mae gennym ddiddordeb mewn ymchwilio i'r disgwyliadau o ran cyllideb 2016–17, gan gynnwys parodrwydd ariannol ar gyfer blwyddyn 2016–17 ac effaith cyllideb 2015–16.

Mae'r [Pwyllgor Cyllid](#) yn edrych ar gyllideb Llywodraeth Cymru o safbwynt strategol a chyffredinol. Rydym hefyd yn cydweithio â phwyllgorau eraill y Cynulliad i sicrhau y caiff cynigion ar gyfer portffolios Gweinidogol penodol eu hystyried yn fanwl. Bydd y pwyllgorau yn cynnal sesiynau i ganolbwyntio ar dystiolaeth gan y Gweinidogion perthnasol er mwyn edrych yn fanwl ar yr agweddau ar y gyllideb sydd o fewn eu cylchoedd gwaith hwy, ac wedyn yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyllid, gan amlinellu unrhyw bryderon sydd ganddynt. Gellir cael manylion pellach am Bwyllgorau'r Cynulliad a phroses y gyllideb yn [Atodiad 1](#).

Yn y papur hwn, nodir cwestiynau penodol yn [Atodiad 2](#). Gallwch ateb unrhyw un neu bob un o'r cwestiynau, neu gallwch roi gwybod i ni am eich pryderon a'ch disgwyliadau cyffredinol o ran y gyllideb ddrafft.

### Datgelu gwybodaeth

Mae polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth i'w weld [yma](#). Cofiwch ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, gellir gwneud cais am gopi caled o'r polisi hwn drwy gysylltu â'r Clerc, Bethan Davies (0300 200 6372 [seneddcyllid@cynulliad.cymru](mailto:seneddcyllid@cynulliad.cymru)).



## Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor Cyllid, i gyrraedd erbyn 7 Ionawr 2016. Os hoffech gyfrannu ond eich bod yn pryderu na fyddwch yn gallu cyflwyno eich tystiolaeth erbyn y dyddiad cau, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor ar 0300 200 6372.

Yn gywir



**Jocelyn Davies**

### Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



# Atodiad 1 – Gwybodaeth gefndir

Pwy ydyn ni?

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn un o bwyllgorau trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys Aelodau o bob un o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad.

Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am lunio adroddiad ar gynigion a gaiff eu gosod gerbron y Cynulliad gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau.

Pa Bwyllgorau eraill sy'n craffu ar y gyllideb?

Y Pwyllgorau eraill sy'n craffu ar y gyllideb yw:

- [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#)
- [Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol](#)
- [Y Pwyllgor Menter a Busnes](#)
- [Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd](#)
- [Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)

Beth yw cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru?

Rhaid i gynigion y gyllideb ddrafft gynnwys manylion ynghylch faint o adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol ddilynol a ffigurau dangosol ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol ar ôl hynny. Yn fwy penodol, dylai amlinellu gwybodaeth ynghylch:

- Yr adnoddau a gaiff eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Incwm sydd i gael ei gadw gan y sefydliadau hynny (yn hytrach na chael ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru).
- Yr arian parod sydd i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru gan y sefydliadau hynny.



Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu dogfen naratif sy'n rhoi eglurhad pellach o'r dyraniadau manwl i adrannau'r Llywodraeth, yn ogystal â chronfeydd wrth gefn a dyraniadau cyffredinol eraill.

Beth yw dyraniadau'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2016–17?

Gellir llwytho Cyllideb Ddrafft 2016–17 Llywodraeth Cymru, a'r dogfennau esboniadol yma:

<http://gov.wales/funding/budget/draft-budget-2016-17/?lang=cy>

Gellir gweld adroddiad cynnydd diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y Rhaglen Lywodraethu yma:

<http://gov.wales/about/programmeforgov/?lang=cy>



## Atodiad 2

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. Beth, yn eich barn chi, fu effaith cyllideb 2015–16 Llywodraeth Cymru?
2. Gan edrych ar ddyraniadau cyllideb ddrafft 2016–17, a oes gennych unrhyw bryderon o safbwynt strategol a chyffredinol, neu ynglŷn ag unrhyw feysydd penodol?
3. Pa ddisgwyliadau sydd gennych o gynigion cyllideb ddrafft 2016–17? Pa mor barod yn ariannol yw'ch sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2016–17, a pha mor gadarn yw'ch gallu i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod?
4. Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol wrth graffu ar y gyllideb. A oes gennych unrhyw sylwadau penodol o ran y meysydd a nodir isod?
  - Paratoi ar gyfer Bil Cymru
  - Trefniadau ariannol byrddau iechyd lleol
  - Dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y cynrychiolir hwn wrth ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar).
  - Effaith rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ac a oes digon o adnoddau ar gyfer ei rhoi ar waith.
  - Craffu ar y Gymraeg, cydraddoldeb a chynaliadwyedd.

